

| | |
|---------------|---|
| CYFARFOD: | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD: | 29 GORFFENNAF 2019 |
| TEITL: | ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2018/19 |
| PWRPAS: | Gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn yr adroddiad |
| ARGYMHELLIAD: | DERBYN YR ADRODDIAD |
| AWDUR: | DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID |

- 1. CEFNDIR**
Gydag amserlen archwilio cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi newid, rydym wedi manteisio ar y cyfle i gwblhau'r Adroddiad Blynyddol ynghynt, ac felly yn cael y cyfle i'w gyflwyno i'r Pwyllgor cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- 2 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2018/19**
Mae'r Adroddiad Blynyddol amgaeedig ar gyfer y Gronfa Bensiwn am flwyddyn ariannol 2018/19 yn darparu adolygiad o'r flwyddyn, adroddiad rheoli a manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa.
- 3. ARGYMHELLIAD**
Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn yr Adroddiad Blynyddol.
- 4. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN**
Bydd Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r holl gyflogwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn ar 24 Hydref 2019.